

A W D L

AM Y DIWEDDAR

BENJAMIN MARTIN, YSW

AROLOGYWR GWEITHFA HAIARN

PENYDARRAN;

Mab Timothy Martin, o Mary Grey. Ganwyd ei Dād yn Cym-land, a'i Fam yn Morganwg. Efe oedd yr hynaf o 12 o bl Cymerwyd ef yn glaf Hydref 29ain, 1854; bu farw Tachw 4ydd, 1854, yn WAEN FARAN, yn 59 Mlwydd Oed. Cladd (ag angladd tua phum mil o ddynion) ar yr 8fed cyfisol. Caf ei ddwyn i fynu yn Nysgeidiaeth barchus ATHROFA YR ER PONTFAEN, dan arolygiad un Mr. Williams. Bu yn Swydd yn y gwaith uchod 46 o flynyddoedd, 14 o'r cyfryw yn Arolygwr. Bu yn Warcheidwad (*Guardian*) dros blwyf Mer am 23 o Flynyddoedd. Yn Swyddog i ddechwyn Senedd (*Returning Officer*) tua 8 mlynedd. Yr oedd hefyd yn A Crefyddol yn Eglwys Loegr. Dywedodd—FORMAN, Y Perchenog y Gwaith, yn ei Angladd, "Pe cadwasai ariafwyd ef, eu bod wrth law."

O! MARTIN, iesin hynawsaf,—ethryb
Ben athraw ffyddlonaf,
Mor brydferth drwy nerth ei Naf,
Oedd ei gerydd hawddgaraf.

Gŵr enwog o wir rinwedd,
Gwall iddo syrthio o'i sedd!
Un mawr ei nôd! Ow! marw wnaeth;
Ar ei ol mae mawr alaeth!

Pa fodd y cwmpodd pen campwr—Pendarren?
BEN hyderus gweithiwr;
A phen, a thâd, ffon a thŵr,
Pen pob sedd, pen pob swyddwr.



Y pen hwn! am dipyn hunodd,—ei lef
 A'i lafur orphenodd;
 Aeth i fyw fyth wrth ei fodd,
 I wýdd IESU ddewisodd.

WG

35

5

304

Un o wrtaith mawr oedd Martin,—a mawr
 Yn marn y cyffredin;
 Nid am rwysg,—ond am ei rîn,
 Ddewisol lywydd iesin.

Nid dialu ydoedd ar dylodion,
 A'u gwylio fel rhyw ddirmyg wehilion;
 Ond eu gwylio oedd fel brawd o galon,
 Yn iach hollol heb unrhyw ddichellion:
 Mynych esyd mewn achosion—rhyw dâl
 O'r llys i gynal y rhai llesg weinion.

Iaith arw ni tharawai neb;
 Eto, parod ei ateb,
 O'i emawg, graff resymeg wraidd
 O wir ofal arafaidd.

Llaw addas oedd er llywyddu—dynion;
 Nid haner gofalu—
 Mwy ceinwyc h oedd yn amcanu
 Yn dad addas i'w dedwyddu;
 Dyna ei honiad tan wenu,
 "Teilwng i'r gweithwyr eu talu
 Yn llawn werth am drafferthu,—a chael ran
 Dyddan anrhydeddu."

Cyfiawnder, llawnder yn llon
 Haeddiannawl, rhoes i ddynion:
 E safai yn was hyfawl,
 E fynai o, gyfiawn hawl
 A thegwech perffaith ddigoll
 I eitha' ràn gweithwyr oll.
 Nid gadael i frâd godi
 A'i rég brwnt, rwygo eu bri;
 A nychu yn anochel
 Eu dyddan seirian dda sêl!

X20 5733432

Ei ddiwg reddf ni rodd gred
 I *glec*, hen arogl hocced
 Ni adodd drais ddyfais ddû
 Ymosod, er gormesu ;
 Fel hyn, drwy ofal hynod,
 Eiddig Lyw, enillodd glod.
 Ac ar delyn pob dyn da
 Ei swynol enw bêr seinia ;
 Dan wawdio'r âi pob dyn drwg
 I gelu rhag ei olwg.

Llywydd ffraethlon, craff, a chyson
 Ei arferion ddiwair fwriad ;
 Lluniodd fuddiol auraidd reol,
 A'i ddawn siriol i ddyn siarad.

Bob dydd, llym beunydd heb ball
 Y deuodd er mwyn dyall
 Dyn a gwaith, anffawd neu gwyn
 I'w swyddfa fel gwas addfwyn ;
 Fore ddydd arferai ddod
 Yn yr un gunawr hynod,
 Er elw oedd ei reol hon,
 Rhag dinystr a rhwyg dynion.

Fe roes helaeth gryf ddarpariaeth
 I wasanaeth pawb personau,
 Eirf i'r dewrion rwygo'n 'sgyrion
 Hen goluddion y mwngloddiau.

Ei amod oedd resymol,— ei eiriau
 Yn araf a grasol ;
 O addaw, ni thynodd 'nol
 Air o'i fan penderfynol.

I wŷr diball y tòr allan,*—teilwng
 Y talodd eu harian,
 Yn gu a rhwydd, heb gadw rhan,
 Na beichio mawr na bychan.

*striks

Hyn, sy'n profi ei uchelfri,
 A'i ddaioni i'r holl ddynion ;

Dyma fonedd yn ei mawredd,
Troi i anedd rhestr o weinïon.

Gorsedd gwir fonedd o foes,
Yw llunio a gwella einïoes.

Dyn i weinïon fel i fawrion
Oedd,—o'i galon ddiogelodd
Rhai cyweithas;— a'i gymwynas
Ewybr, addas i bawb roddodd.

Hir y deil ein hardaloedd—i gyfarch
Ei gofus weithredoedd;
Rhoes i'r gwan help arianoedd,
Hoff wr! doeth a pharod oedd.

Mae yn ein gwlad adeiladau—yn bod
Saif byth yn golofnau;
E gaiff o hyd ei goffhau
Yn noddwr aml aneddau.*

Lluniodd ei gall anïan
Hwylus gylch i les y gwan;
A llwyr y daeth llawer dyn
Difeth dan do ei fwthyn;
Yno'n ben, mewn llawenydd,
Hynawsed wr, nos a dydd,
Yn dal gwledd â'i deulu glân.
Yn ei anedd ei hunan.
Yn byw dan arwydd o barch
Yn gofus, gan ymgyfarch
MARTIN am ei rin a roes
Dy anwyl dros *hyd einïoes*.

Onid amlwg yw ei deimlad—ceinwch,
Ac enwog ymddygiad,
Cymwynaswr, rhoddwr rhad§ § Heb. lôg.
O gerwyn fawr ei gariad.

* Rhoddai Mr. Martin fenthyg arian i bob un o'i hen weithwyr
godi tŷ, pa rai a delid yn ol yn fisol.

Nid o gell dywell y daeth,
 Neu bydew anwybodaeth;
 Na; cadarn fu ei alluoedd,
 A gŵr tra dysgedig oedd;
 Gwyddai'r Gymraeg, loewag lén,
 Eorth ryw, yn nerth yr awen,
 A maes hoff, lawn rymus aeg,
 Wiw swynawl y Saisonag.

E ddeallodd holl ddulliau,—gwiw addas,
 Mewn gwyddiant a chelfau,
 Gwelyau brith y glo brau,
 A manwl drefn y mŵnau.

Ein gemawl Ben digymysg—iawn ydoedd
 Yn adwaen athronddysg,
 Mesurau, doniau pob dysg,
 A gwreiddiau pob gwir addysg.

Pen swyddog talentog oedd
 I ofalu am filoedd
 Gwan frodyr hen Ferthyr fâd,
 Iach odiaeth fel GWARCHEIDWAD.*

DYCHWELYDD† clodwych, hylon,—ein haddas
 Seneddol swyddogion;
 Lles gwlad, o fwriad ei fron,
 Ewybr weithiodd fel Brython.

Er morio mewn bri a mawredd—mewn llys,
 Man llawn o anrhydedd,
 A gwenau'r byd ddigonedd,—
 Daeth i byrth adwyth y bedd!

A llwyr brudd yw llawer bron,
 Ac wylo ar eu calon:
 O achau y LLYW uchod,
 Gwr o'i ddawn pwy geir i dd'od?

Er mawredd gwychedd y gŵr,
 Dewr ethawl lywodraethwr,

* Guardian.

† Returning Officer.



Gorchymyn i ddyn i dd'od,
 O'i ardal mewn awdurdod ;
 I arall heb ball, byw wedd,
 Fyned ar arch ei fonedd :
 Cryf a gwan, fychan neu fawr,
 Agweddent yr un egwyddawr ;—
 Pawb heb frad, i'w alwadau,
 O fodd oll yn ufuddhau.

Er ei ddysg a'i fawredd o,
 A dynion filoedd dano,
 A'i fyw yn llon o fewn llys,
Addolai DDUW yn ddilys.
 O'i wraidd, o hyd, taer oedd o
 Ar DDUW i wir weddio.
 Oedd aelod cyhoedd olwg,
 A'i drem yn erbyn y drwg ;
 Dysgybl NER, dwys gwbl ei nôd,
 Yn Eglwys Loegr wiwglod :
 Ei urdd fu yn harddaf fodd,
 Yr Eglwys peraroglodd.
 Rhoes ei serch yn ardderchog
 Ar GRIST yn awyr y grôg :
 Parhaodd, mynodd y mawl,
 A'r ffyniant anorphenawl.
 Yn uwch ei fraint, mewn iach fro,
 A'i ingoedd oll yn angho',
 O gyrhaedd poen a gweryd,
 A'i gân bêr mewn amgen byd.

Gwael o'i ôl, golofn moliant:—ei odiaeth
 Weithredoedd fytholant
 Da, enw, swydd, a dawn y sant,
 Gan gyfarch ei Gân Gofiant.

JOHN GARNON, (*Ieuan Ferddig.*)

CAN I'R IAITH GYMRAEG.

TÔN.—“Calon Derwen,” (*Heart of Oak.*)

- 1 RHO'WCH osteg ystyriol i ganmol mewn bri,
 Hen anwyl Iaith Gomer, wych dyner a chu:
 Iaith unffurf ei rheol, iaith swynol ei sain,
 Iaith beraidd, oleuwen, iaith gymhen, iaith gain,
 Iaith gryno fal gardd paradwys deg, hardd,
 Iaith Cymro dianaf, iaith benaf y bardd;
 Iaith bery, gwir yw, ar gof dynol ryw
 Mewn agwedd gynyddol er dyfais estronol,
 A'i pharabl iachusol, anfarwol, yn fyw:
 Hi gaiff lawer saeth i'w gyru yn gaeth,
 Ond safed pob Cymro, o'i safle na syflo,
 Rhag i neb anrheithio a rheibio ei iaith.

- 2 Cyfoethog ei geiriau, a'i gwreiddiau teg oll,
 Mae ynddynt lawn synwyr, ac ystyr di-goll;
 Ei chynllun sy' burach, a hynach ei thyd,
 Na ieithoedd tyllysa Ewropa i gyd;
 Amrywiaeth yn llawn, oll drwyddi a gawn,
 Myfyriwn hi'n drefnus, llwyr dengys ei dawn;
 Ei geiriau llym, glân, ddisgynant fel tân
 Ar bob dynol deimlad a ddyry wrandawriad;
 Try nerth ei dylanwad *Alarnad* yn gân:
 Mor swynol a chûn ei geiriau bob un,
 Gwna'n llawen galonau, a chwerthin gilfochau,
 A thyn nentydd dagrau dros ruddiau y dyn.

- 3 Iaith agos berthynas, hoff addas yw hi
 I bob cywir galon, hen Frython o fri;
 Iaith anwyl y tadau, iaith diliau pob dawn,
 A mêr drychfeddyliau o'i geiriau a gawn;
 Iaith ddilyn o nerth, dda sylfaen ddi-serth,
 Mwy ganwaith o raddau nâr gemau ei gwerth;
 Ei silloedd sy' glain, naturiol eu sain,
 Pob nod a llythyren sy'n ateb eu dyben,
 Pob geiry ac acen fel cadwen aur gain;
 Breninoedd o draw, i'w noddi a ddaw
 Trwy bob anhawsderau i lys Eisteddfodau,
 Gan ro'i eu trysorau, prif radau eu llaw.

- 4 Iaith uchel wybodau, a'i llyfrau yn llawn,
 Ar natur ddieisior pob gwyddor a dawn;
 Iaith eglur, hedegog, ardderchog ei gwisg,
 Ar freiniol gelfyddau a gwreiddiau pob dysg;
 Iaith y BIBL hoff rad, annhraethol ystâd,
 Ac unig arddunol, Aur Reol ein gwlad;
 A digon, heb frêg, i bob Cymro tég,
 Yw hyn o wir drysor, pe na byddai rhagor
 I'w rwymo drwy gynghor, fyth ddidor a chwêg,
 I noddi ei iaith, fel nodeb o ffaith,
 Gan lwyr benderfynu, tra einioes ei pharchu,
 Nes elo i lechu i'r gwely oer llaith.
- 5 Iaith breintiau crefyddol, iaith fanol bob sill,
 Iaith gynhes, effeithiol, trydanol ei dull;
 Iaith dreiddia drwy eigion y galon heb gêl,
 Iaith ddisgyn ar glustiau'n gafodau o fêl.
 Os parchwn ein cûn hoff genedl ein hun,
 Rhaid coledd o galon ein Hiaith hylon lun;
 Iaith gadarn ddiail, ni siglir ei sail
 Er gwaethaf ystormydd, a brad *Dic Sion Dafydd*,
 Ei choffawd ni dderfydd tra coedydd a dail:
 Iaith myfyr yr oes, ddylanwad ddi-loes,
 Iaith benaf yr YSGOL *saisf byth yn Sabbothol*,
Athrofa rad, lesol, ddymunol ei moes.
- 6 Iaith addas Areithwyr, Iaith bybyr y Bardd,
 Iaith syml ac anisel, goruchel ei thardd;
 Iaith hy heb gywilydd, ysblenydd ei chlod,
 Iaith gref heb erwinder, Iaith dyner ei nod;
 Pêr-seiniawl yw hon, fal telyn i'm bron,
 Fal mêl mae yn estyn ei llinyn yn llon;
 Bryd arall, ei llef fal taran yn gref
 Felltena mewn t'rawiad, gan rym ei dylanwad,
 Nes dychryn pob teimlad gan ruad ei bref:
 Iaith gywrain ddilen yw'r hen Gymraeg wen,
 A phen pob *Estron-aeg* yw'r ddedhawl Gymroaeg—
 Pa Iaith fel y bur-aeg—Omeraeg? Amen!

JOHN GARNON, (*I. Ferddig.*)

Rees Lewis, Argraffydd, Heol-Fawr, Merthyr.